

TAI GWARCHOD



Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy LL44 2HF Fflatiau 1, 2 a 3 Llofft

RHAID BOD YN GYMWYS AM DŶ CYMDEITHASOL

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) wedi adnewyddu fflatiau ym Mhentref Uchaf, adeilad sydd wedi ei ddylunio yn arbennig ar gyfer bobl hŷn neu anabl sy'n mwynhau byw'n annibynnol.

Cyfleusterau'r Fflat:

- ✓ Lolfa fawr
- ✓ Cegin
- ✓ Un, dwy lofft neu dair llofft
- ✓ Ystafell ymolchi gyda chawod cerdded mewn / ystafell wlyb
- ✓ System gwres canolog olew

Cyfleusterau ar y Safle:

- ✓ Liff
- ✓ Lolfa gymunedol
- ✓ Cegin gymunedol
- ✓ Gardd gymunedol ac ardal tu allan gyda dec
- ✓ Gwasanaeth Swyddogion Tai Gwarchod a larwm argyfwng
- ✓ TCC (CCTV)
- ✓ Systemau mynediad electronig
- ✓ Parcio ar y safle

Lleoliad:

Am fwy o wybodaeth am gyfleusterau yn yr ardal, ewch i 'Lle dwi'n byw' ar www.gwynedd.llyw.cymru a rhoi'r cod post canlynol: **LL44 2HF**

Pwy sy'n gymwys am Dai Gwarchod?

Bydd angen i chi gwrdd ag un (neu fwy) o'r criteria canlynol i fod yn gymwys am dŷ gwarchod:

- Dros 55 mlwydd oed
- Anabl

Mae'n rhaid hefyd eich bod **angen** y gwasanaeth cefnogol sy'n cael ei ddarparu gan swyddogion Tai Gwarchod.

Mae'r Gwasanaeth Tai Cefnogol yn cynnwys:

- Ymweliadau cefnogaeth i'ch cartref (o leiaf 45 munud yr wythnos). Ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Cymorth ar gael i reoli arian a thalu biliau
- Cyswllt a chyfeirio at asiantaethau eraill fel gwasanaeth siopau neu lanhau gan Age Cymru, Cyngor ar Bopeth, Addasiadau, Gofal y Cartref (Gwasanaethau Cymdeithasol) ayb
- Cynllun Cefnogi Personol yn seiliedig ar anghenion sydd wedi eu hasesu
- Gosod system larwm argyfwng 24 awr (rhaid cael llinell ffôn)

NODWCH OS GWELWCH YN DDA: Ni all Swyddogion Tai Cefnogol wneud pethau fel siopau, coginio, glanhau a gofal personol. Cyfrifoldeb sefydliadau fel Age Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal y cartref yw pethau fel hyn.

I wneud cais am un o'r cartrefi hyn cysylltwch â
Tîm Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd ar **01286 685100** neu ebostiwch
opsiynautai@gwynedd.gov.uk

